

CYMDEITHAS RS THOMAS & ME ELDRIDGE

Dyma eich gwahoddiad i ddod yn aelod o Gymdeithas a ffurfiwyd i anrhydeddu cydgyfeiriant bywydau creadigol y bardd R S Thomas a'r arlunydd M E Eldridge. Am yn llawer rhy hir, mae eu cyfraniadau meistrolgar i lenyddiaeth a chelf wedi dioddef o'r diffyg sylw y gall Cymdeithas helpu ei unioni.

I ddod a'r ddau allan o'r cysgodion, i ddangos eu rhinweddau a'u llwyddiannau, bydd Cymdeithas R S Thomas ac M E Eldridge yn:

- **Dod at ei gilydd** bobl sy'n gwerthfawrogi gwaith R S Thomas ac M E Eldridge a'r cyfansoddiadau cerddorol, safleoedd ac arteffactau sy'n gysylltiedig â nhw.
- **Cynnal** gwyliau llenyddol, celf a cherddoriaeth ynghylch barddoniaeth R S Thomas a lluniau M E Eldridge.
- **Cyhoeddi** deunydd yn trafod llenyddiaeth R S Thomas a chelf M E Eldridge a hyrwyddo'r hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi.
- **Trefnu** cyfarfodydd lle bydd gwaith R S Thomas ac M E Eldridge yn cael eu hastudio a'u trafod.

Bydd y Gymdeithas yn cynnal Gŵyl o Farddoniaeth a Chelf yn Aberdaron fis Mehefin, a fydd yn ddilyniant o'r gyfres o wyliau a ddechreuodd yno gyntaf yn 2014. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fis Tachwedd, mewn gwahanol fannau, lle gall aelodau benodi swyddogion y Gymdeithas, clywed ymlaen llaw am raglenni'r dyfodol a lleisio barn ar ddyfodol y Gymdeithas.

Aelodaeth flynyddol yw £20; £30 i deulu; £200 am Aelodaeth Oes. I gael rhagor o wybodaeth, llawr lwythwch y ***Ffurflen Aelodaeth*** a ***CYFANSODDIAD***

Gobeithir y bydd rhai pobl yn cyfrannu rhagor, er mwyn gosod seiliau ariannol cadarn i'r Gymdeithas.

Dyma eich cyfle i fuddsoddi yn nyfodol y Gymdeithas a'r Gwyliau blynyddol, fel y bydd eich bywyd chi a bywydau pobl eraill yn dal i gael eu cyfoethogi gan weithiau eithriadol R S Thomas ac M E Eldridge.

Trefnwyr y Gymdeithas yw: Wynn Thomas (cadeirydd), Susan Fogarty (ysgrifennydd), Peter Hewlett (trysorydd).

Bwrdd Ymgynghorol: Tony Brown, Wendy Davies, Simon Thirsk, Peter Lord a John McEllhenney.